Asesiad Effaith Cludiant

Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint

(Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst, 2016

HYDREF 2015

Mynegai

Rhif	Adran
1	Cyflwyniad
2	Cefndir
3	Ffynonellau Gwybodaeth
4	Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint • Map Lleol o leoliad yr ysgol • Niferoedd disgyblion • Lleoliadau Cartrefi'r Disgyblion • Mapiau o leoliad cartrefi'r disgyblion • % y disgyblion nad ydynt yn mynychu Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint
5	Polisi Cludiant
6	Effaith ar Amseroedd Teithiau
5	Llwybrau cerdded, croesfannau diogelwch a chysylltiadau cludiant
6	Effaith ar Gostau Cludiant
7	Casgliadau

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint o 31 Awst, 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion cyfagos eraill yn amodol ar ddewis y rhieni.

1.2 Yn y ddogfen hon bydd y Cyngor yn:

- Crynhoi bob un o'r materion mewn perthynas â natur y teithiau i ddarpariaeth arall ac amseroedd teithio canlyniadol i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig; yn benodol a fydd gan ddisgyblion ysgolion cynradd daith unffordd o fwy na 45 munud neu ddisgyblion ysgolion uwchradd â thaith unffordd o dros awr;

- Trefniadau ar gyfer cael mynediad i ddarpariaeth amgen annog cludiant cynaliadwy; a dylent fynd i'r afael â'r effaith bosibl o unrhyw anawsterau cludiant ar ymgysylltiad disgyblion â phresenoldeb yn yr ysgol;

- Bydd llwybrau cerdded neu feicio tebygol yn cael eu hasesu ar gyfer diogelwch a dylid asesu hygyrchedd cyn cyflwyno cynigion.

2.0 Cefndir

2.1 Ein nod yw y bydd plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am ddysgu gydol oes a bod yn barod iawn ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud ymlaen trwy wahanol gamau o'u haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd yn bersonoledig i wneud y gorau o'i alluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, mentrus, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a hefyd darpariaeth ffydd.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol i gynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol;
- yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc yng nghyd-destun pwysau cyllideb blynyddol;
- ymagwedd gyson tuag at gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cefnogaeth ac ymyriadau; ac
- ymrwymiad parhaus i ddatblygiad athrawon a staff cymorth mewn ysgolion.

2.2 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion diwygiedig ym mis Ionawr 2015, a ddiweddarwyd o strategaeth flaenorol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2010. Mae'r ddogfen hon ar gael trwy'r ddolen gyswllt ganlynol:

www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation.

2.3 Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ofynnol oherwydd bod angen i:

- Sicrhau bod darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- Gwella ansawdd adeiladau ysgolion a chyfleusterau;
- Darparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol anghynaliadwy a seilwaith ategol;
- Cydnabod bod gwneud dim yn golygu cymarebau disgybl-athro uwch wrth i arian leihau; a
- Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o arian allanol trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

2.4 Yr 'ysgogwyr' neu feini prawf allweddol ar gyfer moderneiddio sy'n sail i'r uchod yw:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth ysgolion gwydn
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau'n lleihau

2.5 Y cynnig yw i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint (ysgol gymunedol Cyfrwng Saesneg,) o 31 Awst, 2016 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn seiliedig ar ddewis rhieni.

2.6 Mae'r cynnig yn cael ei roi gerbron ar sail y meini prawf a osodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd – Ym mis Ionawr 2015, roedd gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint 66 o ddisgyblion llawn amser ac roedd 13.16% o'r lleoedd heb eu llenwi (CYBLD[1]). Ym mis Medi 2015 roedd poblogaeth yr ysgol yn 55 o ddisgyblion llawn amser ac roedd canran y lleoedd heb eu llenwi yn 27.63%;
- Meini prawf adnoddau lleihaol (h.y. ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion nad ydynt o'u cymuned leol a/neu niferoedd bach o fewn y gymuned yn codi pryder ynghylch cynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol) – nid yw 83.63% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn mynychu eu hysgol leol;

[1] CYBLD – Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion

- Meini Prawf Ysgolion Bach – mae poblogaeth a chynhwysedd Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn is na dynodiad cenedlaethol o ysgol fach, ar ben hynny nid yw niferoedd ysgolion yn bodloni gofynion sylfaenol o fodelau ysgolion cynradd fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, a
- Ar hyn o bryd (Gorffennaf 2015), mae Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint hefyd yng nghategori 4 Llywodraeth Cymru, ar raddfa o 1 - 4, 4 yw'r isaf am safonau addysg. Disgwylir i hyn newid yn yr adolygiad blynyddol nesaf ym mis Rhagfyr 2015.

3.0 Ffynonellau Gwybodaeth

3.1 Mae'r ffynonellau gwybodaeth canlynol wedi cael eu defnyddio at ddibenion y ddogfen hon:

- Data CYBLD Ionawr, 2015;
- Gwybodaeth ystadegol sy'n cael ei storio gan y Cyngor;
- Ymatebion ymgynghoriad anffurfiol;
- Polisi Cludiant;
- Gwybodaeth Tîm Monitro Cludiant Ysgol; a
- Gwybodaeth Tîm Diogelwch Ffyrdd.

4.0 Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint

4.1 Mae Ysgol Maes Edwin wedi ei lleoli ym mhentref Mynydd y Fflint. Mae Ysgol Maes Edwin yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 mlwydd oed. Mae'n Gategori 4 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

4.2 Mae lleoliad Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn cael ei ddangos isod;



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council. 2015.

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:7500 @ A4
OS Map: VM Local
Created 04/09/2015

N

Niferoedd disgyblion

4.3 Gan fod y cynnig presennol yn ymwneud â darpariaeth gynradd, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod y ddarpariaeth addysgol yn Mynydd Y Fflint yn dod i ben byddai'n rhaid i rieni ddod o hyd i ddarpariaeth arall. Yr ysgolion eraill a nodwyd i allu darparu'r canlyniadau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf yn gyfwerth ag Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yw: -

Ysgol Gwynedd, Y Fflint

Ysgol Gynradd Sirol Cornist Y Fflint a

Ysgol Owen Jones, Llaneurgain, Y Fflint

Mae Ysgol Gwynedd, Y Fflint, Ysgol Gynradd Sirol Cornist, y Fflint ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain hefyd yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall rhieni ddymuno dewis darpariaeth amgen yn yr ardal. Mae'r ysgolion uchod wedi cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol.

4.4 Yn ôl data CYBLD Ionawr 2015 roedd gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint 66 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr. Ym mis Medi 2015 roedd gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint 55 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr. Caiff niferoedd y disgyblion dros gyfnod o 5 mlynedd eu harddangos isod:

Nifer y **disgyblion llawn amser** ar y gofrestr (*Ffynhonnell*: *Data CYBLD Blynyddol) Ionawr 2011-2015*

Ion 11	Ion 12	Ion 13	Ion 14	Ion 15
32	29	42	51	66



4.5 Nes y gostyngiad diweddar yn nifer y disgyblion yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint (ym mis Medi 2015) nodwyd cynnydd cyson yn nifer y disgyblion yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint ers 2011. Fodd bynnag, cefnogir poblogaeth yr ysgol i raddau helaeth gan ddisgyblion o ardal y Fflint nad Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yw eu hysgol agosaf. Yn ogystal, mae gan yr ysgol niferoedd isel o ddisgyblion sy'n mynychu (29%) o'r pentref a'r cyffiniau, gyda nifer fwy o ddisgyblion ysgolion cynradd (71%) o'r gymuned leol yn dewis ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg eraill yn y rhwydwaith lleol.

Lleoliad Cartrefi Disgyblion

4.6 Mae'r Cyngor yn gweithredu derbyniadau i ysgolion ar sail dewis y rhieni nid ar sail dalgylch. Cyfeirir at ysgolion fel yr 'ysgol briodol agosaf' sy'n ystyried iaith a dewis ffydd. Mae dewis rhieni yn golygu y gall rhieni ddewis unrhyw ysgol ar gyfer eu plentyn / plant ar yr amod bod lle ar gael.

4.7 Mae lleoliad cartrefi presennol disgyblion Ysgol Maes Edwin (ar Medi 2015) yn cael ei arddangos yn y map isod;



4.8 Mae lleoliad cartrefi presennol disgyblion Ysgol Gwynedd, y Fflint (ar Gorffennaf 2015) yn cael ei arddangos yn y map isod;



4.9 Mae lleoliad cartrefi presennol disgyblion Ysgol Gynradd Sirol Cornist, y Fflint (ar Gorffennaf 2015) yn cael ei arddangos yn y map isod;



4.10 Mae lleoliad cartrefi presennol disgyblion Ysgol Owen Jones, Llaneurgain (ar Gorffennaf 2015) yn cael ei arddangos yn y map isod;



4.11 Mae'r siart isod yn dangos lleoliad cartrefi disgyblion presennol (Medi 2015) Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint



4.12 **Canran y disgyblion nad ydynt yn mynychu Ysgol Maes Edwin fel eu hysgol agosaf (**Ffynhonnell: ciplun o ddisgyblion o'r system ONE, fel yr oedd ar Medi 2015)

Ysgol	% y disgyblion nad ydynt yn mynychu eu hysgol briodol agosaf	% y disgyblion sy'n byw ym mhentref Mynydd y Fflint	% y disgyblion sy'n byw yn y Fflint	% y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd eraill
Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint	83.63%	16.36%	67.27%	16.36%

5.0 Polisi Cludiant

5.1 Y costau cludiant blynyddol cyfredol i Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yw £5,510 y flwyddyn, sy'n seiliedig ar rannu darpariaeth cludiant ag ysgol gynradd arall.

5.2 Bydd y Cyngor yn darparu cludiant yn unol â'i Bolisi Cludiant.

http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf

Yn gryno, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol sy'n byw yn Sir y Fflint, lle mae plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol briodol agosaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw yn Sir y Fflint: -

- lle mae'r ffordd i'r ysgol yn cael ei hystyried yn beryglus gan yr Awdurdod Lleol;
- lle mae cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel rheol am resymau meddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y polisi hwn
- Lle mae plentyn angen cludiant am resymau meddygol ac nad oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;

Darperir hefyd gludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw yn Sir y Fflint: -

- pan fo plentyn y mae ei rieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith yn byw mwy na 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;
- i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf o dan y meini prawf a nodwyd uchod;
- i'r ysgol agosaf wirfoddol a gynorthwyir ble mae'r mynediad i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Cynhelir ymgynghoriad ag ysgolion unigol i gadarnhau'r meini prawf derbyn y caiff disgyblion eu derbyn. Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.

6.0 Effaith ar Amseroedd Teithiau

6.1 Mae adrannau 3 a 4 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn datgan nad yw trefniadau cludiant yn addas os 'os ydynt yn cymryd amser afresymol o hir'.

6.2 Er hynny nid yw'r mesur yn pennu terfyn amser ar gyfer pob taith. Mae Gweinidogion Cymru yn credu na ddylai amseroedd teithio arferol fod yn fwy na 45 munud ar gyfer teithio i'r ysgol gynradd a dim mwy na 60 munud ar gyfer teithio i'r ysgol uwchradd.

6.3 Er mwyn asesu unrhyw effeithiau o'r opsiynau ar amseroedd teithio i ddisgyblion, mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer i ganfod y gwahaniaeth yn fras yn yr amser teithio o'r

- pellter o Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint i'r ysgol arall Ysgol Gwynedd, Y Fflint.
- Y pellter o Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint i'r ysgol arall Ysgol Gynradd Gymunedol Cornist y Fflint.
- Y pellter o Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint i'r ysgol arall Ysgol Owen Jones, Llaneurgain.

• Ysgolion	Lleoliad	Pellter o Ysgol Maes Edwin (yn fras)	Amser teithio mewn car (munudau) yn fras – wedi'i asesu gan ddefnyddio 'Google maps'	Math	Categori Iaith
Ysgol Maes Edwin, Lôn yr Ysgol, Mynydd Y Fflint, CH65QR	Mynydd y Fflint	Amh.	Amh.	Cymuned	Saesneg
Ysgol Gwynedd, Rhodfa Tywysog Cymru, Y Fflint, Sir y Fflint, CH6 5NF	Fflint	2.24 milltir	6 munud	Cymuned	Saesneg
Ysgol Gynradd Sirol Cornist Ffordd yr Ysgol, Fflint, Sir y Fflint, CH6 5ET	Fflint	2.73 milltir	8 munud	Cymuned	Saesneg
Ysgol Owen Jones, Ffordd Owen, Llaneurgain, Sir y Fflint, CH7 6AU	Llaneurgain	1.43 milltir	4 munud	Cymuned	Saesneg

Ffynhonnell Pellter: Route Finder 3.41 System Fapio Cyngor Sir y Fflint

6.4 Mae llai na 10 disgybl yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn gymwys ar gyfer cludiant.

6.5 Byddai'r pellter o'r cartrefi i'r ysgol arall yn llai i'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint a byddai modd defnyddio llwybrau cerdded o fewn eu cymunedau lleol.

Ardal y Fflint

Pe bai Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn cau, byddai cymhwysedd disgyblion am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol fel a ganlyn:

- Ysgol Gwynedd – ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter <2 filltir
- Ysgol Gynradd Sirol Cornist – ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter <2 filltir
- Ysgol Owen Jones – ddim yn gymwys (ddim yr ysgol agosaf)

6.6 Ar gyfer nifer fechan o ddisgyblion sy'n byw ar hyn o bryd ym Mynydd Y Fflint byddai'r pellter a deithiwyd yn cynyddu, fodd bynnag, ni fyddai hyn yn fwy na'r canllawiau teithio gan ddysgwyr. Mae'r pellter o bentref Mynydd Y Fflint i Ysgol Owen Jones, Llaneurgain o dan 2 filltir, mae'n debygol y byddai disgyblion yn ardal Mynydd Y Fflint yn gymwys i gael cludiant o dan y meini prawf gan y byddai'r llwybr i'w hysgolion newydd yn cael ei ystyried yn beryglus.

Mynydd y Fflint

- Ysgol Gwynedd – ddim yn gymwys, ddim yr ysgol agosaf
- Ysgol Gynradd Sirol Cornist – ddim yn gymwys, ddim yr ysgol agosaf
- Ysgol Owen Jones - ddim yn gymwys, o dan y meini prawf pellter <2 filltir, ond yn gymwys o dan y meini prawf llwybr peryglus i'r ysgol

7.0 <u>Llwybrau cerdded, croesfannau diogelwch a chysylltiadau cludiant</u>

7.1 Mae'r llwybr mwy diogel yn y rhaglen cymunedau yn ceisio gwella hygyrchedd a diogelwch, ac yn annog cerdded a beicio mewn cymunedau. Nod y rhaglen yw newid y ffordd y mae pobl yn teithio, gan arwain at fwy o gynhwysiant cymdeithasol a gwell diogelwch cymunedol.

Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn ariannu gwaith cyfalaf fel:

- croesfannau,
- mesurau tawelu traffig,
- llwybrau beicio,
- llwybrau troed,
- cyfleusterau beicio diogel (gan gynnwys standiau a theledu cylch cyfyng), loceri a chyfleusterau newid.

Dylai cynllun llwyddiannus ddangos cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys ysgolion.

7.2 Mae'r map isod yn dangos safle Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint. Dangosir y llwybrau troed ar y map isod (mewn melyn). Nid oes cyfleuster croesi yn agos at yr ysgol.



7.3 Mae'r map safle isod yn dangos safle Ysgol Gwynedd, Y Fflint, sydd â phatrôl croesfan ysgol ac wedi ei leoli mewn ardal gyda mesurau arafu traffig a llwybrau troed.



7.4 Mae'r map safle isod yn dangos Ysgol Gynradd Sirol Cornist, Y Fflint. Mae llwybr troed o amgylch yr ysgol i gyd ac mae mesurau arafu traffig ar Windsor Drive. Nid oes cyfleuster croesi yn agos at yr ysgol.

7.5 Mae'r map safle isod yn dangos Ysgol Owen Jones, Llaneurgain, mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn ystâd gyda llwybrau troed. Nid oes unrhyw batrôl croesfan ysgol neu gyfleuster croesi y tu allan i'r ysgol.



7.6 Does dim gwasanaethau bws sy'n rhedeg yn ystod oriau ysgol i mewn ac allan o bentref Mynydd y Fflint.

7.7 Nid oes unrhyw gysylltiadau rheilffordd i bentref Mynydd y Fflint. Mae'r orsaf drenau agosaf wedi ei lleoli yn nhref Y Fflint.

8.0 Effaith ar Gostau Cludiant

8.1 Y costau cludiant blynyddol cyfredol i Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yw £5,510 y flwyddyn, sy'n seiliedig ar rannu darpariaeth cludiant ag ysgol gynradd arall.

8.2 Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu byddai llai na 10 disgybl â hawl i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth iddynt drosglwyddo i'w hysgol agosaf Ysgol Owen Jones, Llaneurgain ar sail y rhesymau canlynol: -.

- Y byddai'r ffordd i'r ysgol arall yn cael ei hystyried yn beryglus gan y Cyngor oherwydd ei lleoliad gwledig, sydd â llwybrau cerdded cyfyngedig i mewn ac allan o'r pentref.

8.3 Y gost flynyddol amcangyfrifiedig am gludiant o’r cartref i’r ysgol fyddai £9,120.

9.0 Casgliadau

9.1 Ar sail yr asesiad effaith cludiant cyffredinol, y canfyddiadau yw y byddai’r cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint yn darparu rhywfaint o newid i'r trefniadau cludiant presennol ac amseroedd teithio i ddisgyblion.

9.2 Mae nifer y disgyblion sy’n byw yn Sir y Fflint ac yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol yn llai na 10 disgybl, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth

mai’r ysgol agosaf sydd ar gael yw Ysgol Owen Jones, Llaneurgain ac a fyddai hefyd yn gymwys i gael cludiant ar y sail bod y llwybr priodol agosaf i’r ysgol yn cael ei ystyried i fod yn beryglus gan y Cyngor oherwydd ei leoliad gwledig, sydd â llwybrau cerdded cyfyngedig i mewn ac allan o'r pentref.

9.5 Gan gymryd hyn i ystyriaeth, rhagwelir y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chludo disgyblion pe bai’r cynigion gael eu datblygu.

9.6 Y gost flynyddol amcangyfrifiedig o gludo disgyblion fydd £9,120.

9.7 Mae'n bwysig nodi nad yw costau cludiant yn syml ac y gallent newid. Bydd maint y cerbyd sydd ei angen, a faint o ddisgyblion sy'n teithio yn effeithio ar gostau contractau penodol. Hefyd, mae'n anodd amcangyfrif y broses gan fod pob contract yn mynd allan i dendr ac yn dibynnu ar ble mae'r gweithredwr wedi ei leoli, gall prisiau amrywio.